

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Hydref 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

#### **56. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Ms J. Hughes a Mrs W. M. Mullen-James.

Atgoffodd y Maer yr aelodau o'u cyfrifoldeb i ddatgan buddiannau personol neu ragfarnus yn ystod y cyfarfod.

#### **57. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 20fed Medi 2017 - Rhifau Cofnod 43-55

Cynigiwyd gan y Cyngorydd A. S. Johnson ac eiliwyd gan y Cyngorydd P. Prendergast a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Medi 2017 - Rhifau Cofnod 19-21

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Ms. J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 22-25

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Ms. J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cyngorydd B. Mellor a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 4ydd Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 62-73

Cynigiwyd gan y Cyngorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cyngorydd B. Mellor a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

## 58. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr amrywiol ddigwyddiadau y bu iddo eu mynychu yn ystod y mis diwethaf a chyfeiriodd yn benodol at Wyl Ffilmiau Cidwm Cymru ac ail-lansio siop briodas Soulmates.

## 59. CYFLWYNIAD: CIDWM CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 158 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Ebrill 2017, croesawodd y Maer Ms Rhiannon Hughes a'i gwahodd i roi trosolwg o Wyl Ffilmiau Ryngwladol Cidwm Cymru.

Diolchodd Ms Hughes i'r Cyngor Tref am ganiatau iddi ddod i siarad am waith Cidwm Cymru, gan ddweud:

- dros y 12 mis diwethaf roeddynt wedi bod yn gweithio fwy yn y Rhyl na Phrestatyn, gydag Ysgol Tir Morfa, y Theatr Fach a'r coleg.
- mae'r wyl ffilmiau yn arddangos eu gwaith.
- roeddynt yn gweithio gyda 12 o bobl o'r Rhyl a 12 o'r Almaen a bod y 12 o'r Rhyl yn mynd drosodd i'r Almaen.
- roeddynt yn darparu arian i anfon pobl ar gyrsiau hyfforddi wythnos i Birmingham a Sheffield.
- roedd yma i ofyn i'r Cyngor Tref ledaenu'r gair am eu gwaith a'i helpu hi i wneud yn siŵr bod pobl o'r Rhyl yn gafael yn y cyfle hwn i ddelio â'r bwch sgiliau ffilm a theledu yma yng Nghymru, sy'n gorfodi i gwmnïau cynhyrchu sydd wedi eu lleoli yng Nghaerdydd edrych y tu hwnt i'r ffin, pan roedd yn fater o gysylltu'r galw gyda'r sgiliau.

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Ms Hughes:

- y byddai wrth ei bodd yn cael adborth gan yr aelodau trwy gyfrwng Clerc y Dref.
- eu bod wastad yn chwilio am gronfeydd ariannu i wneud cais iddynt a' bod hyd yma wedi derbyn arian gan Blant mewn Angen, Ffilm Cymru Wales, Cyngor Tref Prestatyn ac Npower, i enwi ond rhai.
- eu bod yn gweithio gyda phobl 16 oed a throsodd.

Ar ran yr aelodau, diolchodd y Maer i Ms Hughes am ei chyflwyniad.

***PENDERFYNWYD*** bod yr aelodau yn cyflwyno unrhyw wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i Cidwm Cymru o ran gwella cyfranogiad lleol, i Glerc y Dref iddo ef ei chyflwyno i Ms Hughes.

## 60. CYFLWYNIAD: RHEOLWR CANOLFAN SIOPA'R RHOSYN GWYN

Ymhellach i gofnod rhif 55 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Medi 2017, croesawodd y Maer Ms Sue Nash i'r cyfarfod a'i gwahodd i gyflwyno ei hun i'r cynghorwyr.

Diolchodd Ms Nash i'r Cyngor Tref am y cyfle i siarad â'r aelodau ac adroddodd:

- Ei bod wedi bod yn ei swydd am bedwar mis nawr ac er ei bod yn swydd heriol, gyda llawer i feddwl amdano, roedd yn ei fwynhau.
- Ei chefnidir oedd rheoli canolfannau, gan reoli'r Ganolfan Fictoraidd yn Llandudno am 20 mlynedd ac yna symudodd i fanwerthu cyn dod i Ganolfan y Rhosyn Gwyn.
- Ei blaenoriaeth ar y funud oedd delio â materion mewnol a gwelliannau.
- Roedd dwy uned wedi eu cofrestru yr wythnos hon (Bodycare a'r YMCA) gan adael chwe uned yn wag.
- Roedd diddordeb mewn un arall ac roedd yn gobeithio y byddai'n llawn ar ôl y Nadolig.
- Er bod nifer ymwelwyr i lawr 7%, yn bennaf oherwydd Parc Manwerthu Prestatyn, roedd y prosiectau datblygu ar y gweill yn y Rhyl yn gwneud iddi deimlo'n obeithiol ar gyfer y dyfodol.
- Roedd yr arwyddion i'r ganolfan yn wael. Roedd yn bwriadu delio â hyn i wella nifer ymwelwyr.
- Unwaith y byddai mewn sefyllfa i wneud hynny, byddai'n agor y ganolfan gyda'r nos ac yn cymryd rôl mwy actif, weladwy yn y gymuned.
- Byddai Siôn Corn yn ymweld â'r ganolfan ar 26ain Tachwedd.
- Roedd yn awyddus i gael gwybod beth hoffai'r aelodau ei weld yn y ganolfan.

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau'r aelodau, dywedodd Ms Nash:

- Cytunodd bod y toiledau yn flaenoriaeth a bod potensial i weithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i sicrhau hyn.
- Ni allai hi bennu pa fath o siopau i'w denu i'r ganolfan. Gwaith asiant gosod y ganolfan oedd hynny.
- Roedd yn hapus i weithio gyda Fforwm Rheoli Canol y Dref a chynnal cyfarfodydd, pe byddai hyn yn cael ei adfywio gan Gyngor Sir Ddinbych a'r partneriaid.
- Gellid ond delio gyda'r broblem o gael lifft wedi torri yn rheolaidd trwy gael rhai newydd ac yn anffodus, gan nad oedd y ganolfan yn llawn, nid oedd arian i wneud hynny. Unwaith y byddai'r unedau oll yn llawn, byddai'r math hwn o fuddsoddiad yn cael ei wneud.
- Cyfarwyddwyd Swyddogion Diogelwch neu Gyswllt Cwsmeriaid y ganolfan i beidio â mynd y tu hwnt i'r ganolfan am resymau yswiriant.
- Byddai'n ystyried y syniad o gynnig ambell ddiwrnod 'parcio am ddim' i annog siopwyr draw.

Ar ran yr aelodau, diolchodd y maer i Ms Nash am ei hamser.

61. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod).

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau Aelod.

(a) Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (27ain Medi – 13eg Hydref 3017)

Cyflenwr	Manylion Cyflenwad	Rhif Taleb	Dyddiad	Swm £
Cymdeithas Cyngorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio i bedwar cynrychiolydd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Hydref 2017	365	05/10/17	64.00
Sant Ioan Cymru	Darpariaeth Cymorth Cyntaf ar gyfer Rhyl Wyllt	366	20/09/17	180.00
<b>Cyfanswm Atodlen B</b>				<b>£244.00</b>

62. **EITEM ER GWYBODAETH: SGRINIO NADOLIG**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ebost a anfonwyd yn ddiweddar at gynghorwyr yn cynnig tocynnau iddynt i'r ddau sesiwn sgrinio yn Neuadd y Dref ar ddydd Sadwrn 9fed Rhagfyr.

Dywedodd Clerc y Dref mai ychydig iawn o docynnau a oedd ar gael bellach ar gyfer sioe 4.00pm (Muppet Christmas Carol) felly dylent adael i Ddirprwy Clerc y Dref wybod os hoffent docynnau cyn gynted ag y bo modd er mwyn osgoi siomedigaeth.

63. **HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

64. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

65. **COFNODION**

Mewn perthynas â chofnod rhif 7 cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4ydd Hydref, adroddodd Clerc y Dref ei fod, yn unol â chyfarwyddyd, wedi ceisio cadarnhad gan Gyngor Sir Ddinbych ynglyn â pherchnogaeth adeilad Canolfan Gymunedol Wellington ac unrhyw amodau gwerthu yr oedd angen i'r perchnogion lynu atynt cyn gwerthu.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod ymholiadau 'diwydrwydd dyladwy' wedi eu gwneud i'w boddhad nhw ac y gellid symud ymlaen i gyfnewid contractau ar werthiant yr adeilad.

At hyn, ac mewn ymateb i fynnu gan aelod ward, roedd CSDd wedi rhoi sicrhad y byddai cyfleustra cymunedol yn aros o fewn yr adeilad ar ôl ei werthu.

Holodd aelod os oedd angen datgan buddiannau mewn perthynas â'r eitem hon. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**PENDERFYNWYD** bod yr aelodau yn falch gyda'r sicrhad a roddwyd.

**66. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**67. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: .....